

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Welsh Local Government Association



CLILC • WLGA

Swyddog Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



Dyddiad Cau: Dydd Llun 20 Medi 2021 (12:00pm)

Dyddiad y Cyfweiliad: Dydd Gwener 8 Hydref 2021

Swyddog Datblygu Awtistiaeth Cenedlaethol

Cyflog: Graddfa 4 (SCP 30– 35) £33,782 - £38,890
Cyfnod: Amser llawn, cyfnod penodol neu secondiad tan 31 Mawrth 2023 (gyda'r potensial i ymestyn i 31 Mawrth 2025)
Lleoliad: Un Parêd y Gamlas, Caerdydd a Gweithio Gartref

Swydd dan gyfyngiadau gwleidyddol: Ydi

Cymraeg yn hanfodol: Nac ydi. Mae'r gallu i ysgrifennu a siarad Cymraeg yn rhugl yn ddymunol.

Ynglŷn â'r Swydd

Ariennir y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth cynllun gweithredu strategol awtistiaeth cenedlaethol a Chod Ymarfer Awtistiaeth. Mae gan y tîm bump o brif feysydd gwaith – codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth; datblygu a darparu adnoddau; hyfforddiant, trosolwg o'r Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig ac ymgysylltu â budd-ddeiliaid. Mae'r Tîm yn gweithio'n agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, cydweithwyr gwasanaethau cyhoeddus a chymuned awtistiaeth i ddatblygu agenda awtistiaeth ledled Cymru.

Prif ddiben y rôl fydd gweithio gydag Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol i gynorthwyo i weithredu Cod Ymarfer Awtistiaeth sy'n rhan o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru a Deddf y GIG. Wedi'i chynnal gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r swydd hon yn rhan o dîm cefnogi a datblygu integredig unigryw. Bydd y rôl yn cynorthwyo Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol i gefnogi Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu isadeiledd i gyflawni eu cynlluniau darparu lleol ar gyfer awtistiaeth. Bydd deiliad y swydd yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer ystod eang o fudd-ddeiliaid ar lefel genedlaethol ac yn cydlynu gwybodaeth rhwng y rhanbarthau a'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol, ac yn darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar ofynion statudol y Cod Ymarfer. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r gweithlu, a bydd disgwyl iddynt weithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, Gwasanaethau Cymdeithasol, ac arweinwyr Gweithlu Iechyd ledled Cymru.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn hyrwyddo a rhannu adnoddau Awtistiaeth Cymru ar draws Cymru ac ymgysylltu a chefnogi arweinwyr Awtistiaeth lleol a grwpiau budd-ddeiliaid lleol. Bydd gan ddeiliad y swydd rôl allweddol o sicrhau bod llais pobl awtistig yn rhan allweddol o'r gwaith. Bydd y rôl yn rheoli ystod o berthnasau a gohebiaethau i danategu gweithrediad y Cod a hyrwyddo'r agenda integreiddio.

Mae'r rôl yn cynnwys ymgysylltu gydag uwch weithwyr proffesiynol ar draws y Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol, sefydliadau gwirfoddol, pobl gydag awtistiaeth a rhieni / gofalwyr a bydd ganddynt rôl mewn cyfathrebu a rhannu gwybodaeth ar draws y grwpiau hyn.

Bydd y rôl yn cyfrannu at reolaeth tîm drwy reoli llwyth gwaith y Swyddog Gweinyddol.

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

- Datblygu a hyrwyddo gweithio ar y cyd ar draws Cymru, yn unol â'r targedau, ymrwymïadau a gofynion a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Awtistiaeth Cenedlaethol, y Cod Ymarfer, y canllawiau ategol a Rhaglen Waith Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Cysylltu gydag Arweinwyr Awtistiaeth ac Arweinwyr Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig o fewn Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i gefnogi gweithrediad y Cod Ymarfer, a datblygu ymagwedd partneriaeth rhwng addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill.
- Cefnogi'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu ymagwedd gadarn ar gyfer gwaith partneriaeth awtistiaeth ar draws gwasanaethau oedolion - plant ar lefel ranbarthol a datblygu a gweithredu isadeiledd awtistiaeth.
- Cysylltu gyda, a darparu cefnogaeth lle bo'n briodol, i dimau niwroddatblygiadol plant lleol.
- Cysylltu gyda grwpiau cynllunio amlasiantaeth ranbarthol a grwpiau darparu strategol.
- Cysylltu gyda grwpiau budd-ddeiliaid awtistiaeth lleol.
- Hyrwyddo a chefnogi datblygiad grwpiau budd-ddeiliaid lleol mewn ardaloedd lle bo gweithgarwch wedi dod i ben.
- Rhannu a dosbarthu adnoddau Awtistiaeth Cymru.
- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill y tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i sicrhau cydlynïad effeithiol cyffredinol y prosiectau a datblygiadau er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i rannu gwybodaeth.
- Gweithredu fel sianel ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar faterion Awtistiaeth, ac fel adnodd ar gyfer budd-ddeiliaid perthnasol.
- Cysylltu gyda'r grwpiau cydweithredol strategol allweddol i wneud y mwyaf o gyfleoedd i gydweithredu a gwella darpariaeth gwasanaeth.
- Cynrychioli'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol mewn cyfarfodydd fel y bo'n briodol i'r raddfa.
- Bod yn gyfrifol am reoli Swyddog Gweinyddol Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhannu gwybodaeth â nhw, gydag aelodau eraill y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Cydlynu Fforwm Arweinwyr Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Paratoi gwybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar ar gyfer ystod o fudd-ddeiliaid.
- Casglu data, gwybodaeth ac arferion arloesol gan Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Ymateb i ymholiadau cyhoeddus a phroffesiynol lle mae'n briodol i wneud hynny.
- Gweithredu fel cyswllt ar gyfer darparwyr allanol ochr yn ochr ag aelodau eraill y Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol.
- Cynorthwyo i ddatblygu adroddiadau ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.
- Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau eraill yn ôl y gofyn, sy'n cyd-fynd â graddfa'r swydd.

Manylion am yr Unigolyn

Hanfodol

Profiad a sgiliau

- Dealltwriaeth gref o agendâu gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd, polisïau a fframweithiau deddfwriaethol yng Nghymru sy'n ymwneud ag Awtistiaeth.
- Profiad o weithio o fewn awdurdod lleol neu iechyd i annog newid a gwelliant.
- Profiad o reoli staff.
- Dangos dealltwriaeth gref o Awtistiaeth, Cynllun Gweithredu Strategol ASD Cenedlaethol a'r Cod Ymarfer.
- Tystiolaeth o brofiad o reoli newid a rheoli prosiectau ar lefel uwch ar faterion cymhleth ac ar draws y partneriaethau.
- Sgiliau rhwydweithio a chyfathrebu rhagorol.
- Deall sut i ddefnyddio ymchwil ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn dylunio a chyflwyno gwasanaeth lleol.
- Aelod da o dîm sy'n gallu rheoli eich llwyth gwaith, blaenoriaethu a rheoli terfynau amser yn effeithiol.
- Ymrwymiad i, a gwybodaeth yn ymwneud â, materion cydraddoldeb yn arbennig hyrwyddo arferion cyfartal ac osgoi gwahaniaethau ar sail anabledd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddatganioli yng Nghymru ac ymwybyddiaeth wleidyddol.
- Dealltwriaeth o bolisi sector cyhoeddus ac agenda diwygio yng Nghymru.
- Profiad o weithio gydag ystod o raglenni TG, gan gynnwys systemau ar y we.
- Dealltwriaeth o gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd a chyflyrau niwroddatblygiadol perthnasol eraill.

Dymunol

Sgiliau a Dawn

- Gallu siarad Cymraeg, neu barodrwydd i ddysgu.
- Gallu a pharodrwydd i deithio ledled Cymru.

Arall

- Perchennog car gyda thrwydded yrru lân.
-

Ynglŷn â CLILC

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cynrychioli lles llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Ein nod yw **hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd** a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy'n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Mae CLILC yn sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r 3 awdurdod tân ac achub a'r 3 awdurdod parc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

Rydym yn credu fod gwasanaethau'n cael eu darparu orau o fewn fframwaith democrataidd o atebolrwydd lleol ac y dylai pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus gael cymaint o lais â phosibl yn y ffordd maent yn cael eu trefnu, rheoli a'u hariannu. Ystyrir mai Llywodraeth Leol yw'r haen o lywodraeth agosaf at ddefnyddwyr gwasanaethau ac sy'n gallu ymateb orau i'w hanghenion. Rydym yn cefnogi rôl Llywodraeth Cymru o ran gosod y strategaeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn genedlaethol ond credwn mai mater i lywodraeth leol yw dehongli strategaeth i ddarparu gwasanaethau yn seiliedig ar amgylchiadau lleol a blaenoriaethau lleol.

Mae llawer o'n gwaith yn canolbwyntio ar Senedd, Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid a phartneriaid cenedlaethol eraill. Rydym hefyd yn cysylltu â Swyddfa Cymru a Llywodraeth y DU ac yn gweithio'n agos gyda CLIL yn Llundain i geisio dylanwadu ar bolisiau a deddfwriaeth heb eu datganoli ac, yn benodol, adfer ar ôl COVID 19 ac ymateb i ddatblygiadau sy'n ymwneud â Brexit.

Mae ein gwaith yn cynnwys ymgysylltu â Gweinidogion, Aelodau'r Senedd, a sefydliadau cenedlaethol a llywodraethol eraill. Rydym yn hyrwyddo rôl bwysig llywodraeth leol i Aelodau'r Senedd ac yn ceisio gwella a diogelu enw da cynghorau a sicrhau newid cadarnhaol i deddfwriaeth. Felly, mae gwaith lobïo CLILC yn helaeth.

Ein Gwerthoedd

Wrth weithio tuag at ei brif ddibenion, rydym yn ceisio bod yn:

- **Uchelgeisiol** yn ein disgwyliadau ac yn ein gweledigaeth ar gyfer democratiaeth leol a gwasanaethau lleol;
- **Atebol** i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Rhagweithiol** wrth amddiffyn a hyrwyddo democratiaeth leol, wrth i ni ddatblygu polisi ac ymgysylltu ag aelodau;
- **Derbyngar** drwy wrando ar ac ystyried ystod o farn ein haelodau, partneriaid a'n budd-ddeiliaid;
- **Ymatebol** drwy ein gwasanaethau a chymorth i'n haelodau ac awdurdodau sy'n aelodau;
- **Cydweithredol** yn ein dull tuag at lywodraethu a gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru a budd-ddeiliaid eraill.

Rydym hefyd yn gweithio tuag at gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol; gan gynnwys hyrwyddo amrywiaeth mewn democratiaeth a chynorthwyo cynghorwyr yn eu swyddi fel cynrychiolwyr lleol wedi eu hethol yn ddemocrataidd.

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb a thegwch ac er nad ydym yn gorff statudol, rydym yn gweithredu yn ôl ysbryd deddfwriaeth fel Deddf Cydraddoldeb, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Ein Nodau a'n Blaenoriaethau

Sail ein blaenoriaethau yw ein hamcanion craidd o sicrhau:

- **Diwygio, gwelliant parhaus ac ymrwymiad i bartneriaeth** – rydym yn credu mewn diwygio llywodraeth leol ac yn ceisio gwelliant parhaus fel proses ar gyfer darparu gwell canlyniadau a gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru, a sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.
- **Cyllido teg a hyblyg** – mae angen rhagor o ymreolaeth gyllidol a hyblygrwydd ar gynghorau i ymateb i anghenion a blaenoriaethau lleol. Dylid trosglwyddo grantiau i'r setliad, a dylai Llywodraeth Cymru, ar ôl cyfnod y cytunir arno, gostio a chyllido unrhyw gynlluniau a/neu ddeddfwriaeth cenedlaethol newydd yn llawn a dylent ymrwymo i ddatganiadau ariannol sawl blwyddyn fel y gall cynghorau gynllunio yn fwy effeithiol;
- **Ymrwymiad i'r egwyddor o Sybsidiaredd** - dylai Llywodraeth Cymru a'r Senedd ymrwymo i Siarter Ewrop dros Hunanlywodraeth Lleol a'r egwyddor o sybsidiaredd, lle mae'r rhagdybiaeth yw bod grym yn cael ei drosglwyddo i'r lefel llywodraeth agosaf at y bobl. Mae gan Lywodraeth Cymru swyddogaeth strategol genedlaethol glir, ond mae cynghorau'n dymuno gweld momentwm y tu ôl i ddatganoli grymoedd y tu hwnt i Fae Caerdydd i lywodraeth leol ac i gymunedau lleol.

Byddwn hefyd yn:

- **Hyrwyddo swyddogaeth ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau**, gan bwysleisio eu mandad democrataidd cyfartal gyda gwleidyddion cenedlaethol.
 - **Sicrhau cymaint â phosibl o ddisgresiwn lleol mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol** lle mae gan gynghorau a rhanbarthau hyblygrwydd wrth bennu blaenoriaethau, gwasanaethau a threfniadau llywodraethu rhanbarthol.
 - **Hyrwyddo gwelliant wedi ei arwain gan y sector**, gyda phwyslais ar ddigidol ac arloesi, cefnogi awdurdodau i rannu arferion gorau, datblygu sgiliau'r gweithlu a datblygu rhaglen adolygiad gan gymheiriaid corfforaethol.
 - **Annog democratiaeth leol fywiog; hyrwyddo rhagor o amrywiaeth** a gwell ymgysylltu democrataidd a chefnogi datblygiad a hyfforddiant cynghorwyr.
 - **Cefnogi awdurdodau i reoli ei weithlu'n effeithiol** drwy ein swydd fel Sefydliad Cyflogwyr.
-

Buddiannau: Gweithio i CLILC

Mae CLIL yn le cyffrous i weithio ynddo.

Mae CLILC yn y broses o symud i swyddfeydd newydd, modern, cynllun agored ym Mharêd Un Gamlas, Caerdydd (ym mis Hydref 2021). Mae hyn yn rhan o ddatblygiad dinesig cyffrous newydd, sy'n cynnwys amwynderau lleol, ac o fewn pellter cerdded i Orsaf Caerdydd Ganolog a Chanol y Ddinas. Mae CLILC yn cynnwys trefniadau Gweithio'n Hyblyg o fis Medi 2021 hefyd, sy'n golygu y bydd staff yn gallu cydbwysu gweithio o gartref a chanolbwyntiau gwasanaethau cyhoeddus, yn gystal â Swyddfa Caerdydd CLILC.

Ein nod yw cynnig amgylchedd gwaith cyfeillgar, cefnogol a hyblyg ac mae hawl gan staff i ystod o fuddion gan gynnwys:

- Codiadau cyflog cynyddrannol a chyfraniadau i'r cynllun pensiwn llywodraeth leol
- 26 diwrnod o wyliau, yn codi i 29 ar ôl 3 blynedd ac yna'n codi i 32 ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth, ac 8 diwrnod o wyliau'r banc
- Polisi gweithio ystwyth sydd yn cynnwys gweithio'n hyblyg a'r opsiynau i weithio gartref.
- Cynllun Beicio i'r Gwaith, cyfleusterau benthyciad teithio a maes parcio am ddim i staff
- Ystod o bolisiau cefnogol, gan gynnwys egwylliau gyrfa, rhannu swydd, cynllun prynu gwyliau a threfniadau gwyliau eraill.
- Absenoldebau mamolaeth, mabwysiadu, tadolaeth ac absenoldeb rhiant a rennir hael
- Swyddfa wedi'i lleoli'n ganolog yng nghalon un o ddinasoedd mwyaf bywiog y DU

Telerau Cyflogaeth

Mae CLILC yn cyflogi ei gweithwyr yn ôl amodau'r Cydgyngor Gwladol dros Wasanaethau Llywodraeth Leol a'r amryw gytundebau lleol sydd wedi'u newid. Dyma'r prif ofynion:

Cyflog:

Byddwn ni'n talu'ch cyflog fesul mis calendr trwy gredyd banc ar y 15^{fed} diwrnod o bob mis neu oddeutu hynny.

Oriau gwaith:

36 o oriau yw'r wythnos safonol. Mae CLILC yn cyflwyno trefniadau Gweithio'n Hyblyg newydd a fydd yn rhoi hyblygrwydd sylweddol i staff o ran oriau gweithio, oriau nad ydynt yn gweithio a gwyliau blyneddol.

Treuliau teithio a chynnal:

Un o'r amodau penodi yw bod ein staff yn fodlon gweithio unrhyw le yng Nghymru, gweddill y Deyrnas Gyfunol neu Ewrop ar adegau. Byddwn ni'n talu treuliau teithio a chynnal yn ôl cynllun CLILC pan fo rhywun yn gweithio y tu allan i'w ganolfan.

Gwyliau:

Yr hawl gwyliau am flwyddyn lawn (mae'r flwyddyn wyliau yn weithredol o 1 Ebrill tan 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol) fydd 26 diwrnod i ddechrau, ynghyd â gwyliau statudol. Gallai gweithwyr llywodraeth leol presennol dderbyn gwyliau ychwanegol yn seiliedig ar wasanaeth parhaus i lywodraeth leol.

Pensiwn:

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei dderbyn yn awtomatig i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cynllun cyfrannol yw hwn sydd wedi nodi buddion ar gyfer gweithwyr. <https://mpfmembers.org.uk/content/members-currently-contributing-lgps>

Rhybudd: Os ydych chi'n bwriadu gadael eich swydd, rhaid rhoi gwybod fis calendr ymlaen llaw. Caiff y cyfnod ddechrau unrhyw ddiwrnod o'r mis. Rhaid i staff uwch roi rhybudd o 3 mis. Yn yr un modd, rhaid i CLILC roi rhybudd i chi fis calendr ymlaen llaw neu roi rhybudd yn ôl y cyfnod statudol cyfredol, faint bynnag sy'n hiraf.

Telerau Secondiad (os yw'n berthnasol)

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn parhau'n un o weithwyr ei gyflogwr presennol a fydd yn talu ei gyflog o hyd gan adennill yr arian hwnnw o CLILC. Ni fydd amodau na thelerau'r gwaith yn newid. Bydd y Gymdeithas yn ad-dalu costau teithio ar gyfer busnes a threuliau a ysgwyddir ar secondiad. Dylai pob ymgeisydd ddarllen polisi secondiadau ei sefydliad, a chael caniatâd ei reolwr cyn cyflwyno cais.

Swyddi o dan gyfyngiadau gwleidyddol CLILC:

Ni fydd CLILC yn penodi staff neu weithwyr mewn unrhyw rinwedd, unrhyw Gynghorydd sy'n Aelod ar hyn o bryd (yn cynnwys aelod cyfetholedig) o awdurdod lleol, neu unrhyw gorff arall sy'n aelod o CLILC e.e. Awdurdod y Parc Cenedlaethol neu a oedd wedi bod yn Aelod yn y 12 mis blaenorol (a.116 Deddf Llywodraeth Leol (DLIL) 1972).

Ystyrir y swyddi canlynol yn rhai â chyfyngiadau gwleidyddol (yn unol â'r swyddi awdurdodau lleol hynny a nodwyd yn Adran 2(1) o Ddeddf 1989¹:

- Pob aelod o'r Uwch Dîm Rheoli
- Pob swyddog a delir yn uwch na Phwynt 30 ar y Golofn Gyflog
- Swyddogion eraill sy'n rhoi cyngor rheolaidd i awdurdodau lleol
- Unrhyw swyddog gyda rôl sy'n cynnwys siarad ar ran CLILC i'r cyfryngau.

Mae WLGA yn cyflogi ei staff yn ôl egwyddorion cyfleoedd cyfartal.

¹ Rhan I o Ddeddf Llywodraeth Lleol a Thai 1989 a Rheoliadau Llywodraeth Leol (Swyddi dan Gyfyngiadau Gwleidyddol) (Cymru) 2008

Gwnewch gais Rŵan!

I gael sgwrs gychwynnol ynglŷn â'r swydd a'r sefydliad, cysylltwch â Wendy Thomas, Awtistiaeth Arweiniol Proffesiynol Cenedlaethol ar 07717 822479.

I wneud cais, anfonwch lythyr eglurhaol gyda ffurflen gais wedi'i chwblhau erbyn y dyddiad cau, Dydd Llun 20 Medi 2021 (12:00pm)at:

Rheolwr Adnoddau Dynol
e-bost recruitment@wlga.gov.uk

Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i gyfweliad drwy Microsoft Teams ar 8 Hydref 2021.

Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer gwblhau tasg cyn bod yn bresennol yn y cyfarfod, yn ogystal â thasgau cyn cyfweliad ar y diwrnod, wedi'i ddilyn gan gyfweliad gyda phanel dethol.